Prifysgol Abertawe
Swansea University

Astudiaeth Achos: Stuart Fry, adeiladwr waliau sychion

Diogelu'r Dyfodol

hyfforddiant mewn datblygiad cynaliadwy ar gyfer busnesau proffesiynol

Rheolaeth Amgylcheddol ar Gyfer y Dyfodol

hyfforddiant mewn datblygiad cynaliadwy ar gyfer y sector Rheolaeth Amgylcheddol

Delir yr hawlfraint ar y defnyddiau cyhoeddedig o brosiect PP4SD Prifysgol Abertawe, yn y fformadau argraffedig a chrynoddisg, gan yr awduron. Rydym yn cefnogi'r defnydd o'r defnyddiau, gan ofyn yn unig am i'r gydnabyddiaeth ganlynol gael ei rhoi bob tro y'u defnyddir:

"Datblygwyd y defnyddiau hyn gan dîm PP4SD ym Mhrifysgol Abertawe, gyda mewnbwn arbenigol gan PP4SD y DU. Cefnogwyd y gwaith o'u datblygu a'u cynhyrchu gan Gronfa Manteisio ar Wybodaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd dan Amcanion 1 a 3."

(Delir yr hawlfraint ar lawlyfr gwreiddiol PP4SD, y daw defnydd Prifysgol Abertawe'n rhannol ohono, gan Sefydliad y Gwyddorau Amgylcheddol.)

Cefnogir gan Gronfa Manteisio ar Wybodaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd dan Amcanion 1 a 3

Lantra

ARFERION PROFFESIYNOL TUAG AT DDATBLYGU CYNALIADWY
pp4sd
PROFESSIONAL PRACTICE FOR SUSTAINABLE DEVELOPMENT

Astudiaeth Achos: Stuart Fry, adeiladwr waliau sychion

Cyflwyniad a Chefndir

Mae Mr Fry wedi bod yn unig fasnachwr hunan-gyflogedig ers 1993, pan roddodd y gorau i'w 'jobyn go iawn' i ddechrau gweithio'n amser llawn fel adeiladwr waliau sychion proffesiynol. Ers hynny mae wedi sefydlu lle iddo'i hun fel asesydd CGC (NVQ) mewn Cadwraeth Amgylcheddol gyda LANTRA, Cyngor Sgiliau'r Sector ar gyfer diwydiannau sy'n ymwneud â'r tir. Mae rhyw chwarter o'i waith yn cynnwys hyfforddo pobl ifanc ac oedolion yn nhechnegau codi waliau sychion a chadwraeth amgylcheddol. Mae ei gwsmeriaid yn cynnwys sefydliadau megis Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC/CCW) ac Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol yn ogystal â grwpiau cymunedol bach ac amaethwyr unigol.

Mae'r busnes yn tynnu ysbrydoliaeth o ddealltwriaeth a chariad dwys at y tir a'r amrywioldeb biolegol ac amaethyddol y mae'n ei gynnal. Mae'r athroniaeth fusnes sy'n sylfaen iddo'n defnyddio sgiliau a gwybodaeth draddodiadol. Mae Mr Fry yn hyrwyddo cloddiau sychion fel ffordd ymarferol o amddiffyn tir rhag difrod gan dda byw, yn hytrach nag ychwanegiad ffasiynol/esthetig at olwg y dirwedd. Yn ogystal mae ei ddull gweithio symlach, arafach yn helpu i wneud cysylltiadau ac yn hybu syniadaeth gydlynol.

Ffactorau sy'n symbylu Datblygiad Cynaliadwy

Mae cynaladwyedd y mentrau hyn wedi cael ei gymell yn bennaf gan athroniaeth ac ymrwymiad sylfaenol y masnachwr hwn. Er nad yw'r busnes wedi cychwyn gydag ymrwymiad ymwybodol i gynaladwyedd, mae ei athroniaeth o feddwl yn gyfannol, crefftwriaeth safonol a gweithio gyda natur yn cyfateb yn glòs i amcanion ac arferion cynaladwyedd.

Er bod yna ffactorau cymhellol yn y sector ym maes deddfwriaeth (e.e. Tir Gofal a Thir Cynnal) ac ar ran cyflogwyr megis CCGC, mae'r gweithgareddau a'r mentrau'n ymestyn ymhell y tu draw i'r rhain, gan amlygu cymhelliant personol Mr Fry. Yn wir, mae'r busnes wedi cael ei lesteirio ar adeg gan y rôl a chwaraeir gan sefydliadau biwrocrataidd. Mae Mr Fry yn teimlo eu bod wedi colli eu ffordd ac nad ydynt yn rhoi llais digonol i fusnesau mor fach yn y diwydiant cadwraeth.

Yr arferion

Fel unigolyn a dyn busnes mae Mr Fry wedi mabwysiadu ymagwedd gyfannol at ei ôl troed carbon ei hun. Mae e'n ceisio gwaith mor leol â phosibl er mwyn lleihau i'r eithaf yr angen i deithio. Ar gyfer y gorchwylion mwyaf lleol defnyddir ceffyl, neu geffyl a chert, ar gyfer cludiant. Yn achos y tasgau hynny sydd yn rhy bell i geffyl a chert fe ddefnyddir cerbyd bach tanwydd-effeithiol a weithredir gan Nwy Petrolewm Hylifol. Nid yw Mr Fry wedi hedfan ers deng mlynedd ac nid yw'n bwriadu ei wneud eto, gan ei fod yn ystyried hedfan yn ddull cludiant hynod anghynaliadwy. Mae'r busnes yn cael ei redeg hefyd ar sail ymdeimlad cryf o'i le mewn cymuned ac ecónomi leol. Mae ganddo ymrwymiad cryf i brynu nwyddau a gwasanaethau o fewn y gymuned hon er mwyn cadw cyfoeth a gwybodaeth yn cylchredeg yn yr ecónomi leol honno.

Ar raddfa broffesiynol mae'r busnes wedi chwarae rôl weithgar yn natblygiad y sector. Dros y blynyddoedd mae Mr Fry wedi cynnal cyrsiau a threfnu hyfforddiant, gweithio gyda Chymdeithas Cloddiau Sychion Prydain Fawr, ac ysgrifennu erthyglau ar gyfer cylchgronau masnachol.

Cyfleoedd a Rhwystrau - 'Taflu'r broga prin mas gyda dŵr y bath'
Ffynhonnell: Larch Maxey Prifysgol Abertawe

Yr hyn sy'n gyffredin i'r holl weithgareddau hyn yw ymrwymiad brwd i hyrwyddo dynesiad mwy cyfannol at gadwraeth sydd â'i wreiddiau yn y tir ac yn y cymunedau dynol a naturiol a gynhelir ganddo.

Meddwl mewn modd cyfannol

At ei gilydd, mae Mr Fry yn ymwybodol o fethiant i feddwl yn gydlynol yn y sector sy'n creu cyfres o rwystrau rhag datblygiad mwy cynaliadwy. Byddai symudiad at ddull gweithredu mwy cydlynol a chyfannol yn creu cyfleoedd dirif i fod yn gynaliadwy. Mae ei ymdrechion i gael hyd i ddulliau meddwl cydlynol yn symbylu ei benderfyniad ei hun i wneud cysylltiadau, datblygu'r arferion gorau a gweithredu mewn ffordd fwy cyfannol. Mae Mr Fry yn awgrymu bod dull gweithredu eithaf cul, rhagysgrifiadol i'w weld yn amlach na pheidio o fewn y diwydiant, a hynny oherwydd mai *"y tueddiad [ar draws y diwydiant cadwraeth amgylcheddol] yw tynnu ciplun o gyfnod penodol a mynd ati wedyn i geisio newid yr ecoleg yn ôl i'r hyn a oedd yn y 19eg ganrif, dyweder, neu cyn yr Ail Ryfel Byd"*.

Mewn gwrthgyferbyniad â hyn fe allai meddwl mewn ffordd gydlynol gynnwys cynnal arfarniad llawn o gynaladwyedd pob contract cyn iddo gael ei ddyfarnu. Gallai hyn gynnwys y goblygiadau o ran cludiant o symud cerrig, defnyddiau eraill a llafur, gan hyrwyddo defnydd amlach o defnyddiau a llafur lleol. Byddai hyn yn ehangu'r cyfleoedd i hyfforddi, gan y byddai angen am weithwyr lleol. Ar hyn o bryd mae llawer o gontractwyr yn teithio ymhell i weithio.

Meddwl yn lleol

Mae profiad y busnes hwn yn awgrymu y dylai bod tybiaeth o blaid defnyddio technegau a defnyddiau traddodiadol lleol, yn hytrach na'r hyn y mae Mr Fry yn cyfeirio ato fel rhai "ffasiynol". Yn ardal Llanymddyfri, er enghraifft, lle mae prif safle'r busnes, y traddodiad yw defnyddio cerrig crynion o welyau afonydd gyda morter calch, yn hytrach na waliau cerrig sych. Er nad yw hyn yn cydfynd efallai â syniadau esthetig rhagordeiniedig o sut dylai waliau cerrig edrych, mae Mr Fry yn awgrymu ei fod yn fwy cynaliadwy na mewnforio llwythi mawr o gerrig o bell ar gefn lori! Yn wir mae'n rhedeg ei fusnes ar sail yr egwyddor y dylid adeiladu waliau cerrig â'r defnyddiau sydd ar gael yn yr ardal. Fe ellid datblygu'r cysyniad hwn yn yr un ysbryd o sensitifrwydd i darddiad daearegol a arddelir gan ecolegwyr.

Arferion Gorau

Mae'r busnes wedi darganfod cyfle arall. Dylai mwy o gyflogwyr a chynlluniau llywodraethol megis Tir Gofal fynnu bod eu contractwyr yn meddu ar gymwysterau llawn o'r ansawdd uchaf. Ar hyn o bryd dim ond lleiafrif bychan o gyflogwyr sy'n mynnu cymhwyster mewn codi waliau sychion gan gontractwyr. Petai lefel uwch o arbenigedd yn cael ei rhagnodi'n amlach, fe ellid defnyddio hyn i sicrhau bod yr arferion cynaliadwy ac ecolegol gorau'n cael eu mabwysiadu. Mae Mr Fry yn mynnu er enghraifft fod arolwg trwyadl yn cael ei gynnal ar hyd pedwar tymor blwyddyn gron cyn bod unrhyw waith yn cael ei gyflawni, a bod waliau'n cael eu codi â bylchau addas ar gyfer yr holl rywogaethau sy'n byw yn yr ardal, gan gynnwys bylchau nythu sy'n briodol i rywogaethau penodol a mynedfeydd ar gyfer moch daear ac anifeiliaid eraill sy'n tramwyo ar hyd y ddaear. Gallai'r fath bolisïau o ganlyn yr arferion gorau droi'n norm o fewn y diwydiant petai pobl yn mynnu'n amlach bod cymwysterau llawn gan eu contractwyr.

Mae Mr Fry yn awgrymu hefyd y dylid cymhwyso egwyddorion yr arferion gorau at waliau ac adeiladau sydd wedi cael eu gadael i ddadfeilio. Dylai gwneuthurwyr polisi, cyflogwyr a chontractwyr weld y rhain fel cynefinoedd sydd â gwerth dichonol. Mae'r busnes wedi cael profiadau dirif o weithio gyda waliau adfeiliedig a oedd yn lloches i gyfoeth o fioamrywioldeb.

Mae contract diweddar yn rhoi esiampl o hyn ac o sawl pwynt arall a godwyd uchod. Bu raid gweithio ar fferm yn y Canolbarth ar uchder o 1200 o droedfeddi uwchben lefel y môr. Er mwyn cynyddu ei nifer o bwyntiau yng nghynllun Tir Gofal, fe gomisiynodd y ffermwr Mr Fry i ail-adeiladu wal adfeiliedig 470 o lathenni o hyd rhwng gwlyptir sefydlog a 18 o erwau o borfa a oedd yn mynd i gael ei throi'n ddôl wair.

Ar hyn o bryd nid oes rheolau amddiffyn bywyd gwyllt mewn grym mewn perthynas â phryd y dylid gwneud gwaith ar waliau sychion. Ond fel mae Mr Fry am bwysleisio, yr oedd y wal ddadfeiliedig hon yn gartref i *"nifer enfawr o nadroedd defaid, madfallod, madfallod dŵr cribog, brogaod a llyffantod, gan ei bod yn sefyll rhwng y tri chae a'r gwlyptir. Yr oedd wedi bod yn bwysig hefyd i genedlaethau o adar sy'n ymweld yn ystod yr haf ynghyd â rhywogaethau eraill sy'n nythu yno gydol y flwyddyn. Byddai newid y caeau at dyfu gwair ac ail-adeiladu'r wal yn newid y cynefin hwn yn llwyr; ond nid oedd neb yn cymryd hynny i ystyriaeth. Nid oedd neb yn monitro sawl bwrn gwair fyddai'n cael eu cynhyrchu, na sut yr oedd gwahanol rywogaethau'r adar a'r infertebrata'n newid."*

Mae Mr Fry yn pwyntio at ddiffyg monitro'n benodol, a diffyg meddwl cyfannol yn gyffredinol, fel y prif rwystrau sy'n cadw'r sector rhag dod yn fwy cynaliadwy ei ddulliau. Esiampl olaf o hyn yw'r duedd esthetig at waliau sychion sy'n arwain at arferion anghynialadwy. Ar hyn o bryd, er enghraifft, mae toreth o waliau sychion newydd i'w gweld ar hyd ffyrdd ger Caerdydd ac yng Nghymoedd y De. Ond mae'r modd modern o gynllunio ffyrdd yn golygu bod y waliau hyn yn dioddef cryn ddirgrynu wrth i gerbydau fynd heibio, gan fod arwynebedd y ffyrdd wedi'i grymu er mwyn bownsio'r dirgryniadau allan tuag at yr ymylon. I ddatrys y broblem hon a rhwystro pobl rhag dwyn y cerrig, fe osodir capan o goncrid fel arfer ar ben y wal. Mae gwneud concrid yn gofyn cryn ynni, ac mae'r arfer hwn yn llai cynaliadwy o lawer felly na chodi waliau sychion yn y modd traddodiadol. Mae codi waliau sychion o'r math hwn yn golygu'n aml hefyd fod angen mewnforio llwythi mawr o gerrig ar gefn lori o chwareli pell.

Cynnydd a Dysg

Mae'r cynnydd a'r broses ddysgu tuag at gynaladwyedd yn cael eu monitro'n anffurfiol fel rheol, yn hytrach na chael eu gosod mewn polisi ar gynaladwyedd. Er na fyddai hyn yn ddelfrydol ar gyfer sefydliadau eraill efallai, mae'n ymddangos ei fod wedi gweithio'n llwyddiannus hyd yn hyn yn achos Mr Fry fel masnachwr unigol. Y gwersi allweddol y mae'r busnes wedi'u dysgu dros y blynyddoedd yw bod gwaith o ansawdd gwell sy'n seiliedig ar draddodiadau lleol a gwybodaeth leol yn cymryd mwy o amser yn aml, ond mae'n dod â mwy o fuddion cymdeithasol ac ecolegol sy'n gwneud iawn am y buddion economaidd a gollir yn y tymor byr. Ond yn y tymor hwy mae buddion economaidd i'w cael hefyd trwy sefydlu cronfa ddibynadwy o gwsmeriaid a thyfu'r busnes ar sail cymeradwyaeth ar lafar gwlad.

Y Dyfodol

Mae'r busnes wedi ymrwymo i anelu at syniadaeth gydlynol ac arddangos yr arferion gorau ym mhob peth a wnâ. Mae hyn yn cynnwys lleihau ei ôl troed ecolegol i'r eithaf, a chadw at ddulliau llym yn ei arolygu a'i waith ymarferol, yn ogystal â hyfforddi ac ymgyrchu dros welliannau ehangach yn y sector. Wrth dderbyn ysbrydoliaeth o lyfr John Seymour, 'The Forgotten Crafts', mae'r busnes yn awyddus i chwarae ei ran yn y gorchwyl o greu byd lle mae'r pethau sydd o'n cwmpas ni o ddydd i ddydd yn cael eu gwneud â gofal a deheurwydd, nid eu masgynhyrchu am y pris isaf posibl. Uchelgais personol Mr Fry yw cael gorffwys haeddiannol wedi iddo ymddeol yn 60 mlwydd oed yn 2011.